


Datganiad Sefyllfa'r Gymraeg
Welsh Language Position Statement
Natur Cymru



MENTER AR GYFER
CADWRAETH NATUR CYMRU



INITIATIVE FOR NATURE
CONSERVATION CYMRU

Datganiad Sefyllfa'r Gymraeg ar gyfer *Natur Cymru*

Mae'r Fenter ar gyfer Cadwraeth Natur Cymru (INCC) yn Sefydliad Elusennol Corfforedig a sefydlwyd yn 2018 (rhif elusen 1180113) i wasanaethu bywyd gwyllt Cymru a'r bobl sy'n gofalu am fyd natur ac yn ei werthfawrogi. Mae'r INCC yn gweithredu ar sail cylch gwaith i Gymru gyfan. Ei chenhadaeth yw *'bod y llais cryf heb ei rwystro y mae ar fywyd gwyllt Cymru ei angen, gan godi llais a rhoi anghenion bywyd gwyllt yn gyntaf'*.

Mae'r INCC wedi dod yn gyfrifol am gylchgrawn *Natur Cymru* yn 2020, i fod ar gael i gefnogwyr yr elusen. Yn y gorffennol, roedd yn cael ei gyhoeddi gan gwmni nid-er-elw.

Mae'r defnydd o'r Gymraeg yn ogystal â'r Saesneg yn *Natur Cymru* yn adeiladu ar y ddarpariaeth yn y gorffennol ar gyfer y ddwy iaith yn y cylchgrawn ac yn galluogi i'r INCC gyfathrebu'n fwy effeithiol am ei gwaith, ac am fywyd gwyllt yng Nghymru. Mae'n gwneud y cylchgrawn ei hun yn fwy hygyrch i bobl Cymru, y mae tua 1 o bob 5 (ac yn cynyddu) ohonynt yn siarad Cymraeg, yn ôl data'r cyfrifiad cenedlaethol yn 2011. Mae Cymru'n genedl gwbl ddwyieithog a bydd defnyddio'r ddwy iaith yn hanfodol i'r INCC i ymgysylltu'n effeithiol â'r rhai rydym eisiau dylanwadu arnynt, yn ogystal â'r rhai sydd eisoes yn cefnogi ein gwaith.

Wrth i'r INCC weithio tuag at ddarpariaeth gyfartal sy'n ddyhead gennym ni, yn unol â Deddf yr Iaith Gymraeg, byddwn yn gweithio i alluogi i ohebwy'r a chyfranwyr *Natur Cymru* gyfathrebu â ni yn eu dewis iaith. Dros amser, byddwn yn gwella ein darpariaeth Gymraeg.

Mae'r amgylchiadau presennol yn ei gwneud yn ofynnol i ni lansio *Natur Cymru* yng nghyd-destun cyllidebau ac adnoddau llai, yn hytrach na mwy. Felly, mae'n rhaid i ni fod yn realistig ac er mwyn bod yn ariannol hyfyw, ni allwn gynnig cyhoeddiad cwbl ddwyieithog ar hyn o bryd. Er nad oes gennym rwymedigaeth gyfreithiol efallai fel sefydliad gwirfoddol i fodloni Mesur y Gymraeg 2011 sy'n rhoi cyfarwyddyd i gyrff cyhoeddus, rydym yn cydnabod bod y Gymraeg yn elfen bwysig iawn o ddiwylliant Cymru, ac rydym eisiau cadw at ysbryd y ddeddfwriaeth. Felly, rydym yn cyflwyno'r datganiad sefyllfa hwn, gan greu cyfeiriad cadarnhaol ar gyfer y dyfodol.

Darpariaeth sy'n bodoli eisoes yn *Natur Cymru*

Ar ei ffurf flaenorol, roedd *Natur Cymru* yn cynnig 13% o gynnwys Cymraeg ar gyfartaledd yn y copi papur (yn ystod ei ddeng mlynedd diwethaf), gyda deunydd ychwanegol wedi'i gyfieithu ar gael yn ddigidol. Roedd y clawr, yr erthygl olygyddol a'r hysbysiadau busnes bob amser yn cael eu darparu'n ddwyieithog. Roedd erthyglau ar gael mewn cymysgedd o'r ddwy iaith, rhai â chrynodebau wedi'u cyfieithu.

Mae'r INCC, drwy *Natur Cymru*, yn ymrwymo i'r canlynol:

- Cynnal y lefel bresennol o leiaf o ddarpariaeth Gymraeg a dwyieithog yn y cylchgrawn fel isafswm
- Ceisio cynyddu'r ddarpariaeth hon dros amser, gan gynnwys drwy ddarparu mwy o gyfieithiadau digidol lle na ellir cyflawni copïau papur oherwydd cyfyngiadau ar adnoddau
- Gweithio tuag at ymgysylltu â'r holl gefnogwyr yn eu dewis iaith
- Sicrhau bod staff yr INCC yn sensitif i faterion sy'n ymwneud ag iaith a'u bod bob amser yn gweithio i gefnogi'r ddwy iaith.

Bydd *Natur Cymru* yn gwneud y canlynol:

- Cefnogi awduron i ysgrifennu yn eu dewis iaith
- Cael cyfieithiadau gan gyfieithwyr cymeradwy Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru a chael cyfieithwyr cymeradwy i brawfddarllen eitemau a gyfieithwyd gan bobl eraill
- Cynnig gwasanaeth golygu a phrawfddarllen Cymraeg i gefnogi awduron sy'n llai hyderus mewn ysgrifennu technegol ac i'w hannog i gyfrannu yn y Gymraeg
- Os yw'n briodol, ceisio parchu amrywiadau lleol yn y Gymraeg (er enghraifft, drwy ddarparu enwau rhywogaethau rhanbarthol hefyd), gan geisio darparu prif destun erthyglau mewn Cymraeg sy'n cael ei gydnabod yn gywir gan siaradwyr Cymraeg ledled y wlad
- Darparu rhai erthyglau a gyfieithwyd yn uniongyrchol ochr yn ochr bob amser i gefnogi dysgwyr Cymraeg
- Gosod y Gymraeg i'r chwith o'r Saesneg neu uwch ei phen, os yw'r ddwy iaith yn cael eu darparu
- Cynnwys darpariaeth Gymraeg a'r costau cysylltiedig mewn unrhyw gais am gyllid bob amser, er mwyn sicrhau darpariaeth ddwyieithog wrth ddarparu grantiau
- Darparu testun 'busnes' yn y cylchgrawn (er enghraifft, gwybodaeth am danysgrifio) yn y ddwy iaith
- Ymgysylltu â swyddfa ac adnoddau Comisiynydd y Gymraeg i adolygu a gwella ein darpariaeth dros amser.

Welsh Language Position Statement for *Natur Cymru*

The Initiative for Nature Conservation Cymru (INCC) is a Charitable Incorporated Organisation established in 2018 (charity number 1180113) to serve the wildlife of Wales, and the people who care for and value the natural world. INCC operates on a Wales-wide remit. Its mission is '*to be the strong unconstrained voice that Welsh wildlife needs, speaking out and putting the needs of wildlife first*'.

The magazine *Natur Cymru* was taken on by INCC in 2020, to be made available to the charity's supporters. Previously, it was published by a not-for-profit company.

The use of Welsh as well as English in *Natur Cymru* builds on the past provision for both languages in the magazine and allows INCC to communicate more effectively about its work, and about wildlife in Wales. It makes the magazine itself more accessible to the people of Wales, of whom around 1 in 5 (and rising) speak Welsh, according to national census data from 2011. Wales is truly a bilingual nation and making use of both languages will be vital to INCC engaging effectively with those we wish to influence, as well as those who already support our work.

As INCC works towards the equality of provision that is our aspiration, in line with the Welsh Language Act, we will work to allow the correspondents and contributors of *Natur Cymru* to communicate with us in the language of their choice. Over time, we will improve our Welsh language offer.

Current circumstances require us to launch *Natur Cymru* in a context of reduced, rather than increased, budgets and resources. As such we must be realistic that to be financially viable, we are not currently able to offer a fully bilingual publication. Whilst as a voluntary organisation we may not be bound by law to meet the 2011 Welsh Language Measure that directs public bodies, we do recognise that the Welsh language is a vastly important component of Welsh culture, and we want to meet the spirit of the legislation. Therefore, we are setting out this position statement, creating a positive direction of travel for the future.

Pre-existing provision in *Natur Cymru*

In its previous incarnation, *Natur Cymru* offered on average of 13% Welsh language content in the hard copy (over its last ten years), with additional translated material available digitally. The cover, editorial and business notices were always provided bilingually. Articles were available in a mixture of the two languages, some with translated summaries.

INCC, through *Natur Cymru*, commits to:

- Maintaining at least the current level of Welsh language and bilingual provision in the magazine as a minimum
- Seeking to increase this provision over time, including through the provision of more digital translations where hard copies are not achievable due to resource constraints
- Working towards engaging with all supporters in the language of their choice
- Ensuring that INCC staff are sensitive to issues around language and always work to support both languages

***Natur Cymru* will:**

- Support authors to write in the language of their choice
- Source translations via approved translators from The Association of Welsh Translators and Interpreters, and proof items translated by others through approved translators
- Offer a Welsh language editing and proofing service to support authors who are less confident in technical writing and to encourage them to contribute in Welsh
- Where appropriate, seek to respect local variations in the Welsh language (for example by also providing regional species names), whilst seeking to provide primary article text that is recognised as being correct by Welsh speakers throughout the country
- Always provide some side-by-side direct translated articles to support Welsh learners
- Position Welsh to the left of or above the English, where both are provided
- Always include Welsh language provision and associated costs in any application for funding, to ensure bilingual provision in grant delivery
- Provide 'business' text in the magazine (for example subscription information) in both languages
- Engage with the Welsh Language Commissioner's office and resources to review and improve our offer over time.